O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2048 (Cy. 239) (C. 81)

# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU A LLOEGR

# Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ("Deddf 2010").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu bod adran 42 o Ddeddf 2010, i'r graddau nad yw eisoes wedi ei chychwyn a dim ond mewn perthynas ag ymgymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, yn dod i rym ar 1 Hydref 2012.

Mae adran 42 o Ddeddf 2010 yn mewnosod adran 106B yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("Deddf 1991"). Mae adran 106B yn darparu mai dim ond os yw'r amodau a nodir yn adran 106B(2) a (3) o'r Ddeddf honno wedi eu bodloni y caiff person arfer yr hawl, o dan adran 106(1) o Ddeddf 1991, i gael ei ddraeniau neu ei garthffosydd i ymgysylltu â charthffosydd cyhoeddus. Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofyniad i'r person, cyn adeiladu carthffos neu ddraen ochrol, ymrwymo mewn cytundeb gyda'r ymgymerwr carthffosiaeth perthnasol o dan adran 104 o Ddeddf 1991 i fabwysiadu'r garthffos neu'r draen ochrol.

Mae adran 106B o Ddeddf 1991 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi safonau (mewn perthynas ag ymgymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) ar gyfer dylunio ac adeiladu carthffosydd a draeniau ochrol. Rhaid i'r holl gytundebau mabwysiadu o dan adran 104 o Ddeddf 1991 (yn unol ag adran 106B o'r Ddeddf honno) gynnwys unrhyw safonau perthnasol, neu wyro oddi wrthynt gyda chydsyniad datganedig y partïon i'r cytundeb.

Mae adran 42 o Ddeddf 2010 hefyd yn gwneud diwygiadau cysylltiedig i adrannau 104, 105 a 112 o Ddeddf 1991.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau trosiannol mewn perthynas â chymhwyso adran 106B(4) i garthffosydd neu ddraeniau ochrol sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu sydd wedi ei ddechrau cyn 1 Hydref 2013.

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dygwyd darpariaethau canlynol Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Darpariaeth y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 1 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 2 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 2 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 3 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 3 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 4 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 4 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 5 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 6 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 6 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adrannau 7 i 10 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 11 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Adran 11 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Tachwedd 2011 | 2011/2204 (C. 80) |

| *Darpariaeth y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 12 | 1 Tachwedd 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 13 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 14 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 15 *(yn rhannol)* | 18 Ionawr 2011 | 2011/95 (C. 4) |
| Adran 15 (*y gweddill, o ran Cymru yn unig)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 16 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 17 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 17 *(y gweddill)* | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 18 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Adran 18 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Tachwedd 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 19 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 20 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 21 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 22 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 22 *(y gweddill)* | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 23 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 24 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 25 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 26 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 27 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adrannau 28 a 29 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 30 *(yn rhannol)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 30 *(y gweddill)* | 1 Awst 2012 | 2012/2000 (C.79) |

| *Darpariaeth y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 31 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| | 6 Ebrill 2012 | 2012/879 (C. 25) |
| Adran 33 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 34 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 35 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 36 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 36 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 37 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adrannau 38 a 39 *(yn rhannol)* | 18 Ionawr 2011 | 2011/95 (C. 4) |
| Adrannau 38 a 39 *(y gweddill)* | 1 Rhagfyr 2011 | 2011/2856 (C. 101) |
| Adrannau 40 ac 41 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adrannau 42 a 43 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 44 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 45 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adrannau 46 a 47 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| *Yn Atodlen 1—* | | |
| Paragraffau 15 ac 16 *(yn rhannol)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 17 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |

| *Darpariaeth y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 1 *(y gweddill)* | 1 Awst 2012 | 2012/2000 (C.79) |
| *Yn Atodlen 2—* | | |
| Paragraffau 1 i 24 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 1 i 24 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraff 25 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraffau 26 a 27 | 6 Ebrill 2012 | 2012/879 (C. 25) |
| Paragraff 28 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraffau 29 a 30 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 29 a 30 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 31, 32(1) i (3) a (5) i (7), 33 a 34 | 6 Ebrill 2012 | 2012/879 (C. 25) |
| Paragraffau 35 ac 36 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 35 ac 36 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraff 37 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraffau 38 a 39 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 38 a 39 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 40, 41, 43 a 44 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraffau 45 i 47 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 45 i 47 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraff 48 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 49 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |

| *Darpariaeth y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Paragraff 49 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 50 i 53 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 54 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraff 54 *(y gweddill)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| *Yn Atodlen 4—* | | |
| Paragraff 1 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 2, 4, 7, 10, 12, 22, 25, 27, 30, 31, 32, 33 a 37 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 38 i 40, 42 a 43 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| *Yn Atodlen 5—* | | |
| Paragraffau 1 a 2 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 3 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraff 4 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraffau 5 a 6 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2048 (Cy. 239) (C. 81)

# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU A LLOEGR

## Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) 2012

*Gwnaed* *6 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt—

(a) gan adran 48(2) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**), a

(b) gan adran 49(3)(e) a (6) o'r Ddeddf honno, i'r graddau y mae adran 42 o'r Ddeddf honno yn ymwneud ag ymgymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) 2012.

**Darpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2012**

**2.**—(1) Mae adran 42 o Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, i'r graddau nad yw eisoes wedi ei chychwyn, yn dod i rym ar 1 Hydref 2012 mewn perthynas ag ymgymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

(2) Ond mae erthygl 2(1) yn ddarostyngedig i erthygl 3.

(**1**) 2010 p.29

**Darpariaethau Trosiannol**

**3.**—(1) Yn yr erthygl hon—

mae i "adeilad" *("building")* yr ystyr a roddir i "building" yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2010;

mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "*local authority*" yn adran 126 o Ddeddf 1984;

mae i "carthffos" yr ystyr a roddir i "*sewer*" yn adran 219(1) o Ddeddf 1991;

ystyr "Deddf 1984" *("the 1984 Act")* yw Deddf Adeiladu 1984(**1**);

ystyr "Deddf 1991" *("the 1991 Act")* yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991(**2**);

mae i "draen ochrol" yr ystyr a roddir i "*lateral drain*" yn adran 219(1) o Ddeddf 1991;

mae i "gwaith adeiladu" yr ystyr a roddir i "*building work*" yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2010;

ystyr "hysbysiad adeiladu" *("building notice")* yw hysbysiad a roddir o dan reoliadau 12(2)(a) a 13 o Reoliadau 2010;

ystyr "hysbysiad corff cyhoeddus" *("public body's notice")* yw hysbysiad a roddir o dan adran 54 o Ddeddf 1984;

ystyr "hysbysiad cychwynnol" *("initial notice")* yw hysbysiad a roddir o dan adran 47 o Ddeddf 1984;

ystyr "hysbysiad diwygio" *("amendment notice")* yw hysbysiad a roddir o dan adran 51A o Ddeddf 1984;

ystyr "planiau llawn" *("full plans")* yw planiau sydd wedi eu hadneuo gydag awdurdod lleol at ddibenion adran 16 o Ddeddf 1984 ac yn unol â rheoliadau 12(2)(b) a 14 o Reoliadau 2010;

ystyr "Rheoliadau 2010" *("the 2010 Regulations")* yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**3**);

ystyr "tystysgrif planiau" *("plans certificate")* yw tystysgrif a roddir o dan adran 50 o Ddeddf 1984.

(2) Pan fo carthffos neu ddraen ochrol yn gysylltiedig â gwaith adeiladu—

(a) pan fo hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol, tystysgrif planiau, hysbysiad diwygio neu hysbysiad corff cyhoeddus wedi ei roi i awdurdod lleol neu pan fo planiau llawn wedi eu hadneuo gydag awdurdod lleol, a hynny cyn 1 Hydref 2012; a

---

(**1**) 1984 p.55.
(**2**) 1991 p.56.
(**3**) O.S. 2010/2214.

(b) pan fo'r gwaith wedi ei ddechrau cyn 1 Hydref 2013,

yna mae adran 106B(4) o Ddeddf 1991 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriad yn adran 106B(4)(a) o Ddeddf 1991 at “standards published by the Minister” a'r cyfeiriad yn adran 106B(4)(b) o Ddeddf 1991 at “those standards” yn gyfeiriadau at yr hysbysiad, y dystysgrif neu'r planiau sy’n berthnasol.

(3) Nid yw adran 106B(4) o Ddeddf 1991 yn gymwys i garthffos na draen ochrol sy'n gysylltiedig yn unig ag adeiladau neu estyniadau mewn perthynas â'r gwaith y caniateir ei ddechrau heb y gofyniad o dan Reoliadau 2010 i hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol, tystysgrif planiau, hysbysiad diwygio neu hysbysiad corff cyhoeddus gael ei roi i awdurdod lleol, neu i blaniau llawn gael eu hadneuo gydag awdurdod lleol.

(4) Nid yw erthygl 3(3) yn gymwys ar ôl 1 Hydref 2013 ac eithrio i garthffos neu ddraen ochrol sy'n gysylltiedig ag adeiladau neu estyniadau y mae gwaith wedi dechrau ar eu cyfer cyn y dyddiad hwnnw.

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy,
un o Weinidogion Cymru

6 Awst 2012